Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Rhan 1 – Atodiad 1A

## PARAMEDRAU YMARFERION RECRIWTIO YNADON

Mae GLITEF yn defnyddio'r Protocol Defnydd Barnwrol a'r model ategol fel sylfaen i bennu lefel y diwrnodau eistedd sydd eu hangen yn flynyddol i benderfynu achosion ar draws y llysoedd ynadon a'r llys teulu.

Dylai nifer yr ynadon sydd ar gael i eistedd yn lleol adlewyrchu lefel y diwrnodau eistedd sydd eu hangen ymhob Ardal Cyfiawnder Lleol ac ardal panel teulu. Y bwriad yw y dylai bod digon o ynadon i fodloni anghenion busnes ardaloedd lleol ar yr un pryd â sicrhau y gall ynadon eistedd am nifer digonol o ddiwrnodau i gynnal eu cymwyseddau, ond heb eistedd am ormod o ddiwrnodau. Dylai'r ffigurau hyn hefyd gymryd diwrnodau eistedd Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) i ystyriaeth, ynghyd ag ymddiswyddiadau, ymddeoliadau a throsglwyddiadau (y gwyddir amdanynt) a'r angen i sicrhau bod yna nifer digonol o ynadon ar gael i weithredu fel Ynadon Llywyddol.

Bydd nifer yr ynadon sydd eu hangen yn cael ei benderfynu gan fodel capasiti cenedlaethol sy'n eiddo ar y cyd i Strategaeth Farnwrol a Chynllunio'r Gweithlu (JSWP), a Data, Dadansoddi a Mewnwelediad (DAI) GLITEF gydag Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cynghori'r Pwyllgor Ymgynghorol ym mhob rhanbarth fel rhan o'r ymarfer adnoddau barnwrol strategol aml-flwyddyn a fydd hefyd yn ystyried gofynion adleoli a recriwtio Barnwyr Rhanbarth (llysoedd ynadon). Bydd hyn yn sicrhau y cynhelir un asesiad o'r gofynion recriwtio ar gyfer yr holl Farnwriaeth yn y llysoedd ynadon a'r llys teulu.

Bydd ysgrifenyddion y Pwyllgorau Ymgynghorol yn gyfrifol am gydlynu'r ymarfer adnoddau barnwrol blynyddol ac yn defnyddio'r data a gasglwyd i hysbysu penderfyniadau'r Grwpiau Busnes Barnwrol. Bydd casgliadau'r model wedyn yn cael eu rhannu â grwpiau llywodraethol ar lefel cylchdaith, a bydd y grwpiau hyn yn ogystal â Phwyllgorau Ymgynghorol yn cael eu gwahodd i wneud sylwadau ar y data drwy Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol. Bydd y sylwadau hyn, fydd yn seiliedig ar y model a'r darlun lleol, yn ffurfio argymhelliad ar gyfer cynlluniau recriwtio ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Ategol Barnwrol i'w cytuno yn unol â'u rôl o asesu anghenion busnes a chytuno ar gynlluniau recriwtio.